

ADRODDIAD I'R CABINET
13 MEHEFIN 2023

Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Rhaglen Gyfalaf 2022/23 –
Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2023)

Swyddog Cyswllt: Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol

Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2023) o'r rhaglen gyfalaf.
- Nodi'r gwariant o £37,131,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23, fydd yn cael ei gynnwys yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2022/23.
- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
 - £68,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - £30,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - £701,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - £797,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn diwedd blwyddyn 2022/23. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £142.199m am y 3 blynedd 2022/23 – 2024/25.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £1.596m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 5: Manyllder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2022/23 i 2023/24

2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Llwyddodd y Cyngor i wario oddeutu £37.1m yn 2022/23 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £17.1m (46%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol a £2.8m o grant cyffredinol cyfalaf.
- Mae effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir. Ceir ail broffilio oherwydd oediad bwriadol i rai cynlluniau oherwydd cynnydd aruthrol yn y prisiau deunyddiau adeiladu yn ogystal ag oedi mewn pryniant rhai cerbydau.
- Yn ychwanegol i'r £40.8m adroddwyd arno yn adolygiadau blaenorol 2022/23 mae £17.4m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2022/23 i 2023/24, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3. Rhaglen Gyfalaf 2022/23 i 2024/25

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2022/23 ar ddiwedd Mawrth 2023, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynyddoedd dilynol.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2022/23	2023/24	2024/25	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Addysg	7,573	24,078	3,085	34,736	2,111
Amgylchedd	6,244	1,386	246	7,876	(1,089)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7	-	-	7	7
Cyllid	948	1,939	618	3,505	221
Economi a Chymuned	2,232	1,849	150	4,231	66
Tai ac Eiddo	6,798	31,246	7,007	45,051	(424)
Oedolion, Iechyd a Llesiant	428	6,865		7,293	245
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,213	716		1,929	258
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	7,920	8,508	5,686	22,114	1,441
Ymgynghoriaeth	3,768	3,484		7,252	(1,363)
Corfforaethol	-	5,142	3,063	8,205	123
CYFANSWM	37,131	85,213	19,855	142,199	1,596

4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £1.596m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol ar gyfer 2022/23 ar ddiwedd Mawrth 2023, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynnyddoedd dilynol:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				Addasiad Technegol £'000	CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2022/23	2023/24	2024/25	CYFANSWM		
	£'000	£'000	£'000	£'000		
Benthyca gyda chefnogaeth	5,431	9,173	9,173	23,777	(2,807)	-
Benthyca Arall	2,812	10,005	3,137	15,954	-	-
Grantiau a Chyfraniadau	19,942	15,291	330	35,563	3,093	68
Derbyniadau Cyfalaf	695	249	-	944	-	30
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	-	113	-	113	(3,899)	701
Cronfa Cyfalaf	-	23,179	-	23,179	4,726	-
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	8,251	27,203	7,215	42,669	(1,113)	797
CYFANSWM	37,131	85,213	19,855	142,199	0	1,596

5. Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £2,925k. Mae nifer o addasiadau ychwanegol eraill gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £68k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £2,243k Grant Cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion 22/23
- £254k Grantiau gan Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol tuag at gynllun amddiffyn yr arfordir
- £177k Grantiau Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru
- £172k Grant Cronfa Integreiddio Rhanbarthol – addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill
- £79k Amrywiol grantiau tuag at gynlluniau yn y maes Peirianeg

6. Argymhellion

Gofynnir i'r Cabinet:

- dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2023) o'r rhaglen gyfalaf,
- nodi'r gwariant o £37,131,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).

7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2022/23 – 2024/25.

8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol.

Barn y Swyddogion Statudol**Y Swyddog Monitro:****Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad A – Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad B – Manylion Ail-broffilio

Manylion y Prif Newididau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf:

	2022/23	2023/24- 2024/25
	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau		
• Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 22/23 (<i>Adran Addysg</i>).	2,243	
• Grantiau Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>).	177	
• Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	172	
• Grantiau tuag at gynlluniau cyffredinol yn y maes peirianeg sy'n cynnwys Caru Cymru; Strydoedd Diogel (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	79	
• Addasiad Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynlluniau Atal Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir – bellach benthyciadau gyda chefnogaeth yn cael eu darparu (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>).	(1,616)	
• Grant Llywodraeth Cymru a chyfraniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol tuag at Gynllun Amddiffyn yr Arfordir ym Mhorthdinllaen (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>).	254	
• Addasiad Grant Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru (<i>Adran Amgylchedd</i>).	(693)	
• Addasiad net o'r Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>).	(156)	
• Addasiadau Grantiau gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig a datblygiadau amgylcheddol (<i>Adran Amgylchedd</i>).	(406)	

- Trosglwyddo Grant cyfalaf ychwanegol dderbyniwyd yn 21-22 i ariannu costau ychwanegol Pont Bodfel (i Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol o Corfforaethol). 32 (32)

Derbyniadau Cyfalaf

- Cyfraniad tuag at gynllun maes parcio (*Adran Economi a Chymuned*). 30

Refeniw Adrannol

- Cyfraniadau Ysgolion tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys labordai; llecynnau allanol (*Adran Addysg*). 764
- Cyfraniadau tuag at amrywiol gynlluniau (*Adran Economi a Chymuned*). 30
- Addasiadau i'r cyfraniadau tuag at gynlluniau sefydliadau preswyl a gofal dydd (*Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant*). (63)
- Cyfraniadau tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys ffyrdd a goleuadau traffig (*Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol*). 77
- Ariannu ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau trafndiaeth ble nad yw'r grant yn ddigonol (*Adran Amgylchedd*). 183
- Lleihau'r angen am gyfraniad refeniw'r Adran Tai ac Eiddo tuag at gynlluniau Cynnal a Chadw wedi ei Gyfalafu am amrywiol resymau e.e. dim angen cyfalafu; goramcannu (*Adran Tai ac Eiddo*). (498)
- Cyfraniad tuag at gynnydd pryniant cyfrifiaduron (*Adran Cyllid*). 201

Cronfa Cyfalaf

- Trosglwyddo adnoddau cyfalaf heb ei ddyrannu i ariannu costau ychwanegol Pont Bodfel (i Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol o Corfforaethol). 845 (845)

Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill

- Defnyddio cronfa i ariannu offer technoleg gwybodaeth ychwanegol i ysgolion (*Adran Addysg*). 107
- Adnewyddu cerbydau (*Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant*). 130
- Adnewyddu cerbydau ac offer o gronfeydd adnewyddu (*Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol*). 571

Manylion Ail-broffilio

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2022/23 £'000	2023/24 £'000
Grant Cynnal a Chadw Ysgolion (disodli ariannu yn 22/23, sy'n llithro i 23/24 i'w ddyrannu) (<i>Adran Addysg; Corfforaethol</i>)	(1,865)	1,865
Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim (disodli ariannu yn 22/23, sy'n llithro i 23/24) (<i>Adran Addysg</i>)	(1,449)	1,449
Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwnaegol (ADY) (disodli ariannu yn 22/23, sy'n llithro i 23/24) (<i>Adran Addysg</i>)	(426)	426
Grant Cyfalaf Defnydd Cymunedol Ysgolion (disodli ariannu yn 22/23, sy'n llithro i 23/24) (<i>Adran Addysg</i>)	(650)	650
Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynladwy ac Eraill) (<i>Adran Addysg</i>)	(9,310)	9,310
Cynlluniau Adfywio (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(402)	402
Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(811)	811
Cynllun Buddsoddiad Neuadd Dwyfor (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(411)	411
Cynllun Canolfannau yn y maes Plant a Theuluoedd (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>)	(716)	716
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(3,500)	3,500
Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(2,740)	2,740
Adnewyddu Cerbydau (<i>Adrannau Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo</i>)	(5,315)	5,315
Cynlluniau Peirianeg, Strwythurau, Ffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>)	(224)	224
Cynlluniau Atal Llifogydd (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>)	(3,395)	3,395
Cynlluniau Trafnidiaeth, Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(352)	352
Meysydd Parcio – Ailwynebu, Pwyntiau Gwefru ayyb (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(439)	439

Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(72)	72
Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(5,225)	5,225
Cynlluniau Strategaeth Tai a Digartrefedd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(11,845)	11,845
Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl a Swyddfeydd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(181)	181
Cynlluniau Cynnal a Chadw wedi eu cyfalafu (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(206)	206
Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(3,382)	3,382
Cynlluniau Gwaredu Asbestos (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(418)	418
Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(2,924)	2,924
Adnewyddu Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth (<i>Adran Cyllid</i>)	(1,101)	1,101
Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu tan 23/24 (<i>Corfforaethol</i>)	(871)	871

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.
